# Anelu’n uchel: sut i ymgeisio am Grantiau Treftadaeth Gorwelion

19/06/2019




Meddwl am ymgeisio am ein Grantiau Treftadaeth Gorwelion newydd? Dyma Prif Weithredwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol Ros Kerslake yn egluro beth mae hi'n chwilio amdano.

Rydym yn gwahodd Datganiadau o Ddiddordeb ar gyfer ein Gwobrau Treftadaeth Gorwelion newydd.

Mae’r Gronfa gwerth £100miliwn dros y tair blynedd nesaf wedi'i neilltuo i brosiectau mawr, uchelgeisiol a chyffrous.

Eglurodd ein Prif Weithredwraig Ros Kerslake explained: "Mae'r hyn rydym yn chwilio amdano yn rhywbeth a fydd yn cael effaith sylweddol ar bobl a chymunedau. Mae’n rhaid fod [eich prosiect] wedi gwneud rhywbeth rhagorol.

"Mae'n rhaid i chi gadw at safon rhai o'r buddsoddiadau blaenorol rydyn ni wedi'u gwneud."

Yn siarad o Alexandra Palace – a gafodd £18.8m o fuddsoddiad y Loteri Genedlaethol yn 2015 – dywedodd Ros fod y theatr yn enghraifft o: "fuddsoddiad mawr iawn yn cyflawni rhywbeth anhygoel".

Eglurodd Louise Stewart, Prifweithredwraig Alexandra Palace, sut mae cyllid i adfer y theatr Fictoraidd wedi creu "prosiect i bawb".

"Fel elusen, rhan o'n dyletswydd yw gwasanaethu'r cyhoedd. Mae (Alexandra Palace) yma ar gyfer y cyhoedd, nid elfen benodol o'r cyhoedd. Ac felly mae'r hyn a wnawn a'r hyn y mae cyllid treftadaeth wedi caniatáu i ni ei wneud, yn edrych yn wirioneddol ar y grwpiau nad ydym yn ymgysylltu â nhw, "meddai Stewart.

"Petaech yn dod i Alexandra Palace ar ddiwrnod heulog, byddech yn gweld pob gr?p oedran, bob lliw croen, pob demograffeg y gallwch ei ddychmygu. Dyna pam ein bod yma. Ac mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi caniatáu i ni wirioneddol ehangu'r gwaith hwnnw."

Rydym yn chwilio am yr effaith bellgyrhaeddol honno ar dreftadaeth, ac ar gyfer cymunedau, gyda'n Grantiau Treftadaeth Gorwelion

## Sut i ymgeisio

Rydyn ni nawr yn gwahodd Datganiadau o Ddiddordeb gan sefydliadau sydd â syniadau uchelgeisiol. Y dyddiad cau yw 11 Hydref 2019.

Cewch ragor o wybodaeth ar dudalen Grantiau Treftadaeth Gorwelion ar ein gwefan.

Anelwch yn uchel, a phob lwc.